OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2020 Rhif 1193 (Cy. 270)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Croesfan Reilffordd Llanymddyfri, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020

Gwnaed	*30 Hydref 2020*
Yn dod i rym	*6 Tachwedd 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 14(1), (4) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Croesfan Reilffordd Llanymddyfri, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 6 Tachwedd 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 22:00 o'r gloch ar 6 Tachwedd 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A40 Abertawe i Fanceinion.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd yn Rhodfa Tywi, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o bwynt 20 o fetrau i'r gogledd o Groesfan Reilffordd Llanymddyfri hyd at bwynt 20 o fetrau i'r de o'r groesfan o dan sylw.

Cymhwyso

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Dirymu

5. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Croesfan Reilffordd Llanymddyfri, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2019(**2**) wedi ei ddirymu.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 30 Hydref 2020

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

(**2**) O.S. 2019/1365 (Cy. 237)